

Rhestr Prisïau

ADLONIANIANT GWLEDIG
Cinematic
RURAL ENTERTAINMENT

Sgrin Symudol Cinematic

£80 (rhaid llogi am o leiaf 2 awr am £80 ac yna £20 am bob awr wedi hynny)

Pecyn yn gynnwys

- Sgrin Sinema Symudol
- Taflunydd
- Xbox a Kinect/Peiriant DVD (gemau Xbox ar gael)
- System Sain
- Technegydd (yn y lleoliad)
- Dosbarthu am ddim (o fewn 20 milltir i Gaernarfon)
- Gosod a thynnu i lawr



Sgrin mawr: Uchder - 13tr / 4m, Lled - 19tr / 5.8 m, Hyd - 14tr / 4.3m

Sgrin bach: Uchder – 10tr / 3.16m, Lled – 15ft / 4.5m, Hyd – 6.5tr / 2m

Noder: Nid yw sgrin Cinematic yn gweithio pan yn llygad yr haul/ golau cryf yr haul nac mewn lleoliadau gyda llawer o olau. Yr opsiwn arall sydd ar gael yw'r babell enchwythedig sydd wedi ei dywyllu'n arbennig. Mae'r babell yn rhoi'r golau delfrydol ar gyfer defnyddio sgrin daflunio.

Pabell Chwyddadwy Cinematic

- Llogi am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)
£100
- Llogi am ddiwrnod llawn (4 - 8 awr)
£160



Pecyn yn cynnwys:

- Pabell chwyddadwy
- Taflunydd
- Sgrin Taflunio
- Xbox a Kinect/chwaraewr DVD (gemau Xbox yn gynwysedig)
- System Sain
- Technegydd (ar leoliad)
- Dosbarthu am ddim (o fewn 20milltir i Gaernarfon)

Uchder - 12troedfedd/ 3.6 Medr

Lled - 25 troedfedd / 7.6 Medr

Hyd - 32 troedfedd / 9.7 medr

- Gosod a tynnu i lawr.

Noder: Bydd unrhyw ddangosiad o sleidiau, ffilmiau, cerddoriaeth, lluniau neu hysbysebion fydd yn cael ei defnyddio gydag unrhyw offer Cinematic angen ei gyflenwi gan y llogwyr. Ni all Cinematic gymryd unrhyw gyfrifoldeb o gyflenwi unrhyw un o'r rhain, dim ond yr offer a welir yn y pecynnau.

Llogi system PA

- £40 llogi am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)
- £80 Llogi am ddiwrnod llawn (4-8awr)

Pecyn yn cynnwys:

- System Sain
- Technegydd (ar leoliad)
- Dosbarthu am ddim (os o fewn 20millir i Gaernarfon)
- Gosod a thynnu i lawr.

Peiriant Popcorn

£60

Pecyn yn cynnwys 30 bocs popcorn.

£10: Cost o 10 bocs ychwanegol.

Peiriant Cŵn Poeth

£60

Pecyn yn cynnwys 30 o gŵn poeth.

£10: cost o 10 gŵn poeth ychwanegol.

Peiriant Candi Floss

£60

Pecyn yn cynnwys 30 o fagiau candi floss.

£10: cost o 10 bag ychwanegol.



Llogi Peiriant Cŵn Poeth a/neu Candi floss a/neu Beiriant Pop Corn yn cynnwys:

- Staff (nid yw'n bosib ei logi heb aelod o staff Cinematic)
- Dosbarthu am ddim (os o fewn 20milltir i Gaernarfon)
- Gosod a thynnu i lawr.

Noder: os ydych chi'n llogi'r peiriant Cŵn Poeth a/neu beiriant pop corn mae angen i'r llogwr wneud yn siŵr bod gan Staff Cinematic fynediad at ddŵr poeth. Mae hyn i sicrhau fod Cinematic yn cydymffurfio a Deddf diogelwch bwyd.

Pecynnau:

Sgrin ac un stondin fwyd: **£120**

Sgrin ac dau stondin fwyd: **£150**

Sgrin a thri stondin fwyd: **£180**

Dwy stondin fwyd: **£80**

Tri Stondin fwyd: **£110**

Costau ychwanegol:

Generadur (angenrheidiol os nad oes trydan yn y digwyddiad) £10 - £30 cynnwys tanwydd.

Bydd cost ychwanegol i ddigwyddiadau tu allan i radiws 20 milltir Caernarfon am gostau teithio, byddwn yn gofyn am £0.40 y filltir.

Telerau ac Amodau Cinematic

Unrhyw berson/mudiad sydd yn llogi offer Cinematic sy'n gyfrifol/ atebol am unrhyw ddifrod neu anaf o ganlyniad i gamddefnydd neu ddefnydd anystyriol o'r offer gan unrhyw un yn y digwyddiad. Mae'r canllawiau yma ar gyfer diogelwch bob person sydd yn defnyddio'r offer, ac mae'r cyfrifoldeb yn llwyr ar y llogwr i sicrhau eu bod yn glynu at y telerau ac amodau. Drwy logi'r offer rydych yn cadarnhau i'r telerau canlynol:

Canslo

1. Gall Cinematic / GISDA ganslo'r bwciad ar unrhyw amser heb rybudd blaenorol. Prin iawn yw'r amseroedd y bydd yn hyn yn digwydd ond ar gyfer amgylchiadau annisgwyl rydym yn cadw'r hawl hwn.
2. Mae Cinematic yn cadw'r hawl i ganslo digwyddiadau ar unrhyw amser, o dan yr amgylchiadau yma bydd ad-daliad llawn yn cael ei gynnig.
3. Os byddwch yn canslo o fewn 48awr i ddyddiad y digwyddiad, byddwn yn gofyn am 50% o'r taliad llawn.
4. Os byddwch yn canslo o fewn 24awr i'r digwyddiad, byddwn yn gofyn am y taliad yn llawn.

5. Os ydych yn canslo 48 awr neu fwy cyn y digwyddiad, ni fyddwn yn gofyn am daliad, ond os bydd unrhyw gost o ganlyniad i ganslo'r offer mi fyddwn yn eich anfonebu am y gost yma.
6. Os yw'r llogwr yn penderfynu ar ddiwrnod y digwyddiad nad yw'r offer ei angen ar gyfer y cyfnod llawn ni fydd ad-daliad am yr amser lle na fydd yr offer yn cael ei ddefnyddio.
7. Os, ar ddiwrnod y digwyddiad, mae'r offer yn cael ei ddefnyddio am gyfnod hirach nac y cyfnod a benderfynwyd cyn dyddiad y digwyddiad, bydd cost ychwanegol o £20 yr awr. Dyma ein pris sylfaenol am logi'r ein hoffer wedi'r ddwy awr gyntaf.

Taliad

1. Mae modd i brisiau newid heb ddim rhybudd blaenorol.
2. Gofynnwn am y taliad drwy siec, arian parod neu drosglwyddiad banc. Byddwn yn eich anfonebu a bydd gofyn am y taliad o fewn 28 diwrnod.

Offer

1. Dim ond yr offer a deunyddiau sydd ar gael mae Cinematic yn gyfrifol amdanynt. Cyfrifoldeb y llogwr yr am unrhyw offer neu ddeunyddiau ychwanegol fydd ei angen. Mae'r llogwr yn gyfrifol am roi rhybudd neu gael unrhyw ganiatâd a thrwydded perfformio gan unrhyw awdurdod sydd yn neu a diddordeb a bydd angen gwneud cais os yn ofynnol. Bydd unrhyw gost a fydd codi o absenoldeb unrhyw ganiatâd neu rybudd yn cael ei dalu gan y llogwr ac nid gan Cinematic/GISDA.
2. Ni fydd sgrin Cinematic yn gweithio yn llygaid yr haul / mewn golau llachar. Mae'r llogwr yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod cysgod digonol neu dywyllwch.
3. Mae Cinematic angen mynediad at soced drydan yn lleoliad y digwyddiad, os na fydd hyn yn bosib bydd generadur ar gael - bydd cost ychwanegol.
4. Bydd dimensiynu offer Cinematic yn cael ei anfon cyn y digwyddiad, maent i'w gweld ar y rhestr brisiau. Bydd y person a enwyd yn y ffurflen archebu yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod yr offer yn gallu cael ei ddefnyddio yn y lleoliad a bod digon o le ar gael yno.
5. Ni chaniateir tanau, ysmegu na barbeciws yn ymyl yr offer.
6. Ni does modd defnyddio unrhyw offer Cinematic mewn glaw neu eira. Mae hi yn gyfrifoldeb ar y llogwr i edrych ar y rhagolygon tywydd a darparu lleoliad arall priodol os oes glaw, eira neu wynt yn cael ei ragweld.
7. Os bydd glaw yn digwydd yn ystod y digwyddiad, bydd yr offer yn cael ei diffodd am resymau diogelwch. Mae gan Cinematic yr hawl i ohirio defnydd o'r offer hyd nes y bydd y tywydd yn gwella neu ganslo'r digwyddiad os bydd risg i staff, gwirfoddolwyr neu ddiogelwch y cyhoedd.
8. Nid yw'r Sgrin na Phabell yn gallu cael ei ddefnyddio pan mae gwynt ar gyflymder o 15myr neu uwch. Os yw'r gwynt yn gryfach na 15myr mae gan Cinematic hawl i ohirio defnydd o'r offer dros hyd nes i'r tywydd wella neu d ganslo os oes risg i staff, gwirfoddolwyr neu aelodau o'r cyhoedd.
9. Bydd angen i'r llogwr gyflenwi unrhyw sioe sleidiau, ffilmiau, cerddoriaeth neu hysbyseb fydd yn cael ei ddefnyddio a Cinematic. Ni fydd Cinematic yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am gyflenwi'r rhain, dim ond yr offer sydd yn cael ei enwi yn y rhestr brisiau.
10. Os oes problem gyda'r offer sydd yn cael ei logi yn ystod y cyfnod benthycu NI ddylai'r llogwr ymgeisio i drwsio'r offer. Yn hytrach dylai'r llogwr gysylltu ag aelod o staff Cinematic neu wirfoddolwr.
11. Ni fydd yr offer ar gael i'w defnyddio hyd nes y bydd yr holl arwyddion iechyd wedi ei arddangos ac asesiad risg wedi ei wneud. Bydd staff Cinematic yn gwneud asesiad risg eu hunain ond rydym yn awgrymu yn gryf y dylai'r llogwr wneud un ei hunain.

Arall

1. Bydd staff Cinematic yn cyrraedd awr o flaen llaw a byddant angen o leiaf awr i bacio'r offer ar ddiwedd y sesiwn. Bydd yr amser cyrraedd yn cael ei gadarnhau o flaen llaw cyn diwrnod y digwyddiad.

2. Mae cyfnod llogi yn barhaus ac nid yn yr amser y mae'n cael ei ddefnyddio - h.y. os yw'r offer yn cael ei logi am dair awr o 1yh ymlaen mae'r cyfnod bwcio yn o 1yh -4yh.
3. Pan mae'r peiriant Cŵn Poeth neu'r peiriant Pop Corn yn cael ei logi - bydd angen mynediad at ddŵr poeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr Cinematic. Mae yn unol â deddf diogelwch bwyd.
4. Mae'r llogwr angen sicrhau fod yno lecyn gwastad glan gyda mynedfa hawdd i osod yr offer.
5. Tra bydd pob ymgais yn cael ei wneud gan y cwmni i fynd i bob digwyddiad sydd wedi bwcio, mae pob digwyddiad sydd yn cael ei logi yn amodol nad yw cael ei ganslo o ganlyniad I Weithred gan Dduw, rhyfel, streic, terfysg, cau allan neu unrhyw aflonyddwch llafur arall, tan, llifogydd, cyfyngiad ar deithio, tanwydd neu bŵer, meddiant gorfodol, prinder deunyddiau neu drafnidiaeth neu lafur neu unrhyw achos arall sydd tu hwnt i reolaeth y cwmni.
6. Mae Cinematic dan Ddeddf Atebolrwydd Cyflogwyr 1969 (Yswiriant Gorfodol), os ydych angen mwy o wybodaeth am hyn neud unrhyw beth arall sydd i'w gweld yn y ddogfen hon cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r wybodaeth isod:

GISDA

22/23 Y Maes,

Caernarfon

LL55 2NA

Ffon: (01286)672045